



Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

Seneddpetitions@senedd.cymru

02 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 5 Ionawr ynglŷn â'r ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi terfyn ar y cyfyngiadau symud.

Mae Cymru – yn union fel gweddill y byd – wedi bod o dan gysgod pandemig y coronafeirws dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae llawer iawn o bobl wedi mynd yn sâl ac yn anffodus mae mwy na 7,000 o bobl yng Nghymru wedi marw o'r feirws ofnadwy hwn.

Ar 14 Rhagfyr, cyhoeddwyd ein *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* wedi'i ddiweddarau. Mae'r cynllun yn nodi pedair lefel rhybudd, sy'n cyd-fynd â lefel y risg, ac yn amlinellu'r mesurau sydd eu hangen ar bob lefel, i reoli lledaeniad y feirws ac i ddiogelu iechyd pobl. Rydym wedi defnyddio arbenigedd Grŵp Cyngori Gwyddonol y DU ar Argyfyngau, a'n Grŵp Cyngori Technegol, i nodi'r ymyriadau sy'n gweithio a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu yn ystod y pandemig.

Mae Cymru wedi bod ar lefel rhybudd pedwar – y lefel uchaf o gyfyngiadau – ers 20 Rhagfyr. Mae hyn wedi golygu ei bod yn ofynnol i bobl aros gartref. Mae manwerthu nad yw'n hanfodol, gwasanaethau cyswllt agos, campfeydd a chanolfannau hamdden, lletygarwch a lletyau wedi'u cau.

Er bod y cyfyngiadau hyn ar bobl a busnesau ledled Cymru wedi bod yn heriol, oherwydd ymdrechion pawb rydym yn gweld gostyngiad cyson a chalonogol mewn achosion o'r coronafeirws ledled Cymru.

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gyfyngiadau yng Nghymru gael eu hadolygu bob 21 diwrnod er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymesur ac yn effeithiol. Rydym wedi dechau cymryd y camau cyntaf tuag at lacio'r cyfyngiadau – dychwelodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen i'r ysgol yr wythnos hon (wythnos 22 Chwefror). Os bydd y sefyllfa iechyd y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyhoedd yn parhau i wella, rydym yn gobeithio y bydd mwy o blant yn dychwelyd i'r ysgol cyn gwyliau'r Pasg.

Yn yr adolygiad tair wythnos diweddaraf o'r cyfyngiadau, dywedais y byddai Llywodraeth Cymru'n ystyried a ellir codi'r cyfyngiad aros gartref yn yr adolygiad nesaf yn ystod wythnos 8 Mawrth. Os yw hynny'n bosibl, byddwn hefyd yn ystyried dewisiadau i ddechrau ailagor manwerthu nad yw'n hanfodol a gwasanaethau cyswllt agos.

Mae hyn wedi'i amlinellu yn fy natganiad ysgrifenedig yn: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-cymru-2020>

Rydym hefyd wedi cyhoeddi diweddariad pellach i *Gynllun Rheoli'r Coronafeirws*, sy'n ystyried effaith brechu ar y pandemig a phresenoldeb amrywiolion newydd o'r feirws. Mae'r diweddariad hwn ar gael yn <https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru-llacior-cyfyngiadaun-raddol>

Gallwn i gyd fod yn falch o gynnydd rhagorol y rhaglen frechu yng Nghymru. Daw'r rhaglen ag addewid o ddyfodol mwy disglair, ond mae llawer i'w wneud eto. Mae'r cyfyngiadau'n parhau i fod yn angenrheidiol i atal y feirws rhag lledaenu ac i ddiogelu Cymru.

Dymuniadau gorau



MARK DRAKEFORD